# Datganiad Gwasanaeth
# Tîm Cyngor VISA

## Gweledigaeth

Nod Cyngor ar Fisâu yw cefnogi myfyrwyr rhyngwladol wrth ymgymryd â chyfnod o astudio gyda ni yn y DU mewn modd diogel a chyfreithiol. Yn ogystal â hynny, ein nod yw bod eu profiad mor groesawgar, buddiol a boddhaus â phosib a bod holl fyfyrwyr Prifysgol Abertawe'n cael y cyfleoedd i gymysgu a thyfu gyda'i gilydd mewn amgylchedd diogel a meithringar.

## Cenhadaeth

Prif faes arbenigedd Cyngor ar Fisâu yw mewnfudo i'r DU, yn enwedig o ran myfyrwyr, a'n cenhadaeth yw cynnig cyngor a gwybodaeth o'r radd flaenaf i fyfyrwyr rhyngwladol a'u teuluoedd. Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth cyngor penodol ar gyfer materion anacademaidd sy'n ymwneud â lles ac yn ceisio rhoi cyfleoedd i wella profiad myfyriwr rhyngwladol a hyrwyddo rhyngwladoli ar y campws ac oddi arno.

Rydym yn cefnogi'r holl fyfyrwyr rhyngwladol, waeth beth yw eu cenedligrwydd, eu crefydd, eu rhywedd, eu hoedran, eu tueddiad rhywiol neu eu statws iechyd. Rhoddir ein cyngor am ddim a heb wahaniaethu.

Byddwn yn gweithredu'n unol â Chôd Moeseg UKCISA/AISA ac yn bodloni rheolau a safonau llym yr Awdurdod Cyngor Mewnfudo (IAA)

## Ein Gwerthoedd

Mae BywydCampws yn gweithredu'n unol â set ddiffiniedig o werthoedd craidd, a disgwylir i'n staff allu dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o adeg cyflwyno cais am swydd i gyflawni eu rôl o ddydd i ddydd.

Ein Gwerthoedd:

### Rydym yn Broffesiynol

Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein gonestrwydd a'n doethineb i ddarparu gwasanaethau arloesol, effeithiol ac effeithlon ynghyd ag atebion o safon ardderchog


### Rydym yn Cydweithio

Rydym yn ymfalchïo ein bod yn gweithio mewn amgylchedd rhagweithiol, cydweithredol, a seiliwyd ar gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her i gyflwyno gwasanaethau sy'n ymdrechu i ragori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.

### Rydym yn Ofalgar

Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol.

## Y Tîm




## Yr hyn rydym yn ei gynnig

- Cyngor a gwybodaeth am fewnfudo (Llwybr Myfyrwyr a chategorïau perthnasol eraill i fyfyrwyr).
- Cyngor a gwybodaeth o ran materion myfyriwr rhyngwladol.
- Cymorth gyda cheisiadau am estyniad i Fisa Myfyriwr.
- Gweithgareddau croeso a sefydlu.
- Gwybodaeth a chyngor o ran rheoliadau cyflogaeth.
- Gwybodaeth a chyngor o ran byw yn y DU o ddydd i ddydd.
- Gwybodaeth a hyfforddiant o ran ymwybyddiaeth ddiwylliannol.
- Rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol.

## Beth gallwch ei ddisgwyl

- Cyngor gwybodus, diduedd, anfeirniadol a chyfrinachol.
- Bydd ardal Bywyd Myfyrwyr ar gael ar adegau penodol. Ewch i'n gwefan am yr oriau diweddaraf.
- Staff croesawgar a chymwynasgar sy'n diweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau drwy ddatblygiad proffesiynol, mynychu hyfforddiant perthnasol a chael aelodaeth/achrediad o gyrff proffesiynol perthnasol.
- Darperir gwybodaeth, cyngor ac arweiniad drwy:

1. sesiynau galw heibio sydd ar gael ar Gampysau Singleton a'r Bae (fel a hysbysebir ar

ein prif wefan yma.
2. sesiynau Sgwrs Fyw sydd ar gael (fel a hysbysebir ar ein prif wefan yma)
3. Cyfeiriad e-bost pwrpasol. Ymdrechwn i ateb pob ymholiad drwy e-bost o fewn **pum niwrnod gwaith**.
4. Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar Facebook, Twitter ac Instagram i ryngweithio â'n gwasanaeth a dilyn y newyddion a'r wybodaeth diweddaraf am ddigwyddiadau, ynghyd â chyfeiriadau at adnoddau allanol (nid ydym yn darparu cyngor ac arweiniad penodol drwy ein sianelau yn y cyfryngau cymdeithasol):
    - Facebook: https://www.facebook.com/CampusLifeSU/
    - Instagram: https://www.instagram.com/campuslifesu/

- Os bydd aelod staff yn absennol, bydd neges 'allan o'r swyddfa' (yn ddwyieithog lle bo modd) yn nodi pryd y bydd yn dychwelyd i'r swyddfa ac â phwy y dylech gysylltu yn ei absenoldeb.
- Byddwn yn rhoi gwybod i chi os na fyddwn yn gallu bodloni'r holl safonau gwasanaeth yn ystod cyfnodau prysur.

### Yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

- Ein nod yw meithrin annibyniaeth, hunanymwybyddiaeth a chyfrifoldeb personol. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn disgwyl i fyfyrwyr gymryd cyfrifoldeb gweithredol a chamau gweithredu priodol i reoli'r materion a'r pryderon y maen nhw'n gofyn am ein cymorth yn eu cylch.
- Trin staff y gwasanaeth â pharch yn unol â rheoliadau a chodau ymddygiad y Brifysgol.
- Dylech esbonio natur eich ymholiad gan roi cymaint o wybodaeth â phosib.
- Chi sy'n gyfrifol am ddarparu'r holl ddogfennau angenrheidiol mewn da bryd i'n galluogi i ymateb i'ch ymholiad.
- Disgwylir i chi ymateb yn brydlon i gais am wybodaeth, boed yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu drwy-bost.
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw newid yn eich amgylchiadau, gan gynnwys newid cyfeiriad neu newid cyfeiriad e-bost.
- Dod i apwyntiadau'n brydlon neu roi gwybod i ni os byddwch yn hwyr oherwydd rhesymau y tu hwnt i'ch rheolaeth.
- Disgwylir i chi fyfyrio ar y cymorth a dderbynnir a gweithredu arno.

### Ni allwn roi cymorth i chi gyda'r canlynol:

- Ceisiadau am wybodaeth, cyngor ac arweiniad y tu allan i'r oriau gwasanaeth rydym yn eu hysbysebu. Gwasanaeth yn ystod y dydd yw Cyngor ar Fisâu ac nid yw'n cynnig gwasanaeth y tu allan i oriau i fyfyrwyr gysylltu ag ef. Dylid cyfeirio problemau y tu allan i oriau (argyfyngau yn unig) at sylw adran Ddiogelwch Prifysgol Abertawe.
- Ymateb brys i ddigwyddiadau difrifol ac argyfyngau. Cyfrifoldeb gwasanaethau statudol megis yr Heddlu a'r GIG yw hyn. Nid yw Cyngor ar Fisâu yn cynnig gwasanaeth ymateb brys, er bod staff fel arfer yn rhan o ymateb i effeithiau digwyddiadau mewn perthynas â lles neu ddisgyblaeth sy'n cynnwys myfyrwyr, gan ddarparu cyngor a chymorth i'r rhai hynny yn y sefyllfaoedd hyn.
- Achosion mewnfudo cymhleth sydd y tu hwnt i gylch gorchwyl Cynghorydd o dan yr Awdurdod Cyngor Mewnfudo (IAA). Gallai'r rhain ymwneud â'r canlynol: Fisâu nad ydynt ar y Llwybr Myfyrwyr; ceisiadau am hawlen waith/fisa; gofynion preswylio; lloches; ceisiadau y tu allan i'r rheolau; fisâu teithio personol; ceisiadau a wneir dramor neu achosion sy'n ymwneud ag aelodau teulu neu ffrindiau'r myfyriwr.
- Cymorth neu feithrin eiriolaeth bersonol. Gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: Eiriolaeth y Brifysgol o ran apeliadau neu gwynion; geirdaon personol ar gyfer cyflogaeth neu at ddibenion eraill neu geisiadau dilysu dogfennau swyddogol.

**Adborth**

**Rydym yn gwerthfawrogi adborth gan fyfyrwyr, cydweithwyr a rhanddeiliaid eraill.** Mae eich barn, boed yn dda, yn wael neu'n cwestiynu, yn bwysig i ni. Helpwch ni i wella ein gwasanaethau'n barhaus drwy gynnig eich sylwadau a'ch awgrymiadau drwy e-bost, ac ymateb i'n ceisiadau am adborth drwy arolygon rheolaidd a sesiynau grwpiau ffocws.

Gallech hefyd gwblhau Cerdyn Adborth Cyngor ar Fisâu yn ardal aros Bywyd Myfyrwyr ar Gampws Singleton neu drwy HybMyUni ar Gampws y Bae.

Mae'r gwasanaeth yn gwbl anhysbys. Nid ydym yn rhannu'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu ag unrhyw drydydd parti a byddwn yn ei diogelu yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

Emma Gwynnett-Davies
Pennaeth Fisâu
**Cysylltu â Ni**

Bywyd Myfyrwyr
Prifysgol Abertawe
Adeilad Talbot
Parc Singleton
Abertawe
SA2 8PP